

Cylchgrawn

ar Gyfer y 50+ yn Sir Gâr

RHIFYN
ARBENNIG
DIOGELWCH
CYMUNEDOL



Y TU MEWN:

Gwybodaeth
a chyngor i
helpu i'ch
cadw'n ddiogel





Mark James
Cadeirydd y Bartneriaeth
Diogelwch Cymunedol



Steve Mears
Is-gadeirydd y Bartneriaeth
Diogelwch Cymunedol

CROESO...

Croeso i rifyn arbennig iawn o'r newyddlen ar gyfer pobl 50+. Mae'r rhifyn hwn wedi'i neilltuo ar gyfer materion diogelwch cymunedol ac mae'n llawn o wybodaeth a chyngor i'ch helpu i gadw'n ddiogel.

Dengys ffigurau bod Sir Gaerfyrddin yn un o'r llefydd mwyaf diogel yn y DU i fyw ynddo; y llynedd bu gostyngiad o dri y cant yn nifer y troseddau – sef 287 yn llai o bobl wedi dioddef trosedd. Ein nod yw cadw pethau felly.

Sefydlwyd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin yn 1998 er mynd i'r afael â phroblemau trosedd ac anrhefn. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Gaerfyrddin, Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Ymddiriedolaeth Prawf a'r gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella ansawdd bywyd pawb yn Sir Gaerfyrddin.

Hyderwn y bydd y newyddlen hon yn ddefnyddiol i chi ac y byddwch yn teimlo'n dawlach eich meddwl o wybod ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd fwyaf pwysig i'r trigolion drwy gyfrwng dulliau plismona rhagweithiol, trefniadau cydweithio cryf a mentrau amlasiantaeth penodol sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn.

Rydym eisiau i Sir Gaerfyrddin fod yn lle mwy diogel fyth i bobl sy'n byw a gweithio yn y Sir ac i rai sy'n ymweld â hi.

Lladron i fod yn wylriadwrus o'r fan bobi

BYDD gofyn i fyrgleriaid, lladron a galwyr ffug fod ar eu gwylriadwriaeth: mae cynllun Fan Bobi yn cael ei weithredu ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae prosiect Heddlu Dyfed-Powys yn ymweld â dwsinau o gartrefi bob mis i osod cloeon, larymau a chadwyni drysau er ceisio lleihau nifer y troseddau ac ofn troseddau.

Saer cymwysedig sy'n gwneud y gwaith o osod yr offer a rhoddir cyngor i'r trigolion hefyd ar sut i osgoi dioddef trosedd yn y cartref.

Dywedodd Joan Thomas, Caerfyrddin: "Yn ogystal â chloeon newydd cefais ben UV i nodi eiddo gwerthfawr a hefyd larwm personol.

"Cefais lawer iawn o gyngor hefyd, er enghraifft, i adael y goleuadau ymlaen pan wyf yn mynd mas ac i gofio tynnu'r llenni min nos.

"Gwnaeth i mi feddwl beth allen i fy hun wneud i wella diogelwch ac mae wedi gwneud i mi deimlo'n llawer mwy diogel."

Un o nifer o brosiectau ymgyrch "Cartrefi Diogel" y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yw Fan Bobi.

Gall cyfeillion, teuluoedd a chymdogion atgyfeirio pobl fregus fyddai'n cael budd o'r cynllun.

Dywedodd cadeirydd y Bartneriaeth, Mark James: "Mae cynllun Fan Bobi yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl hŷn o ran pa mor ddiogel y maent yn teimlo yn eu cartrefi eu hunain. Mae hefyd yn gweithredu fel modd i



Un o drigolion Caerfyrddin, Joan Thomas gyda saer Fan Bobi Colin Taylor a'r swyddog diogelwch cymunedol, yr Heddwras Anthony George.

atal byrgleriaid a galwyr ffug. Mae'r staff sy'n rhan o'r cynllun yn gweithio'n galed iawn i ymweld â chynifer o gartrefi â phosib ac mae eu gwaith yn cael ei werthfawrogi'n fawr."

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â cydgysylltydd lleihau byrgleriaethau Brian Jones drwy ffonio 101.

For further information contact burglary reduction co-ordinator Brian Jones on 101.

Gwyneb plismona yn Sir Gâr

Pwy ydynt? Swyddogion yr heddlu yw aelodau'r rhan fwyaf o'r Tîmau Plismona Bro gan gynnwys fel arfer arolygydd, sarjant, heddwesion a swyddogion cynorthwyol cymunedol yr heddlu. Weithiau bydd swyddogion y cyngor yn cynnwys rheolwyr tai, gweithwyr ieuentid a chynrychiolwyr cyrff gwirfoddol cymunedol eraill yn rhan o'r tîm.

Beth y maent yn ei wneud? Mae aelodau'r tîm yn weladwy, yn hygyrch, yn adnabyddus yn lleol ac yn gyfarwydd â'u hardaloedd. Eu nod yw sicrhau ardaloedd diogel drwy ddarparu gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i fodloni anghenion yr ardaloedd lleol y maent yn eu gwasanaethu. Nid yr un blaenoriaethau sy'n addas i bob ardal. Mae swyddogion y TPB yn gweithio mewn partneriaeth gyda'u cymunedau i ddatrys problemau a chael atebion i bryderon lleol.

Sut allwch chi gysylltu â hwy? Gallwch gysylltu â'ch TPB lleol drwy ffonio 101 neu gyrchu'r wefan www.dyfed-powys.police.uk



PACT - helpwch ni i'ch helpu chi

Cyfarfod cyhoeddus â swyddogion y Tîm Plismona Bro lleol yw Partneriaid a Chymunedau yn Cydweithio, neu PACT.

Cynhelir cyfarfod yn eich ardal leol bob mis er casglu gwybodaeth am faterion lleol sy'n bwysig i'ch cymuned.

Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon wedyn i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Helpwch ni i'ch helpu chi drwy ddod i'r cyfarfodydd hyn a dweud wrthym beth gredwch chi yw pryderon mwyaf eich cymuned.

Ffoniwch 101 a gofynnwch am eich Tîm Plismona Bro lleol i gael gwybod pryd y cynhelir cyfarfodydd PACT yn eich ardal neu cyrchwch y wefan www.dyfed-powys.police.uk.

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthyh yn fuan.



Yn eich helpu trwy'r dydd, bob dydd



Mrs Jeanne Walsop gyda Cyngh Kevin Madge a Bethan Michael Stone o'r Llinell Gofal.

Derbyniodd staff y Llinell Gofal ganmoliaeth gan breswlydd o Sanclêr am iddynt achub ei bywyd.

Roedd Jeanne Walsop, 85 oed, wedi cwmpo yn ei chartref yn ystod tywydd rhewllyd mis Ionawr. Yn ffodus roedd Mrs Walsop yn gwisgo ei larwm gwddf a llwyddodd i alw am gymorth— ac o fewn eiliadau roedd cymorth ar ei ffordd.

“Roeddwn yn rhoi bara mas i'r adar pan lithrais ar y stepen a disgyn ar fy nghefn gan daro fy mhen. Trwy lwc roeddwn yn gwisgo larwm gwddf y Llinell Gofal a chefais ymateb o fewn eiliadau – clywais lais gŵr bonheddig yn dweud 'peidiwch â becco Mrs Walsop – mae help ar y ffordd'. O fewn munudau daeth fy nghymydog draw ac yn fuan iawn wedyn cyrhaeddodd ambiwlans.

“Mae pawb wedi bod mor wych – pe na fyddai pobl wedi ymateb mor sydyn gallai'r

canlyniadau fod wedi bod yn wahanol iawn”

Mae Mrs Walsop yn un o fwy na 6,500 o drigolion Sir Gaerfyrddin sy'n defnyddio gwasanaeth brys 24 awr y Llinell Gofal ar gyfer yr henoed, pobl anabl a phobl fregus.

Yn darparu cysur a chymorth mewn argyfwng, mae'r system alw gyfrinachol yn galluogi pobl i siarad gyda rhywun neu i alw am gymorth pan na allant gyrraedd ffôn.

Dywedodd y Cyng. Kevin Madge, Hyrwyddwyr Gofal Cwsmeriaid: “Mae'r Llinell Gofal yn wasanaeth ardderchog sy'n darparu cyswllt brys i bobl fregus. Mae'n rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt i wybod bod cymorth wrth law os byddant ei angen.

“Rwy'n falch iawn bod Mrs Walsop wedi gallu galw am gymorth, a'i bod yn gwella'n dda yn dilyn ei hanffawd.”


Y LLINELL Gofal yw ein canolfan galwadau brys ar gyfer yr henoed, pobl anabl a phobl fregus. Mae hefyd yn gweithredu fel gwasanaeth brys y tu allan i oriau ar gyfer gwasanaethau eraill y Cyngor Sir.

Byddwn yn:

- Cysylltu gyda chi o fewn pum niwrnod gwaith o dderbyn cais am larwm, fel y gallwn drafod y mater gyda chi;
- Dweud wrthyfch faint fydd raid i chi aros cyn y bydd y larwm yn cael ei osod;
- Dangos i chi sut i ddefnyddio'ch larwm;
- Defnyddio eich enw a dweud wrthyfch gyda phwy yr ydych yn siarad pan fyddwch yn ein ffonio;
- Siarad gyda chi yn glir yn eich dewis iaith;
- Siarad gyda chi mewn modd cyfeillgar a gofalgarg;
- Galw am gymorth meddygol os byddwch ei angen;
- Cysylltu gyda staff eich cartref lloches os byddwch angen cymorth ganddynt, neu gysylltu â'r unigolyn yr ydych wedi rhoi ei fanylion i ni os nad ydych yn denant y Cyngor;
- Cysylltu gyda'r frigâd dân os yw eich larwm Llinell Gofal yn cynnwys larwm tân ac mae hwnnw'n canu;
- Cadw eich holl fanylion personol yn gyfrinachol;
- Bod ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, bob diwrnod o'r flwyddyn;
- Ceisio ateb eich galwadau o fewn 60 eiliad;
- Rhoi manylion i chi am ein perfformiad os gofynnwch amdanynt;
- Cofnodi pob galwad ffôn er ein helpu i wella ein gwasanaeth i'n cwsmeriaid a'ch helpu chi gydag unrhyw gwyn sydd gennych; a
- Delio'n gwrtais gyda phob larwm a genir mewn camgymeriad.

I gael rhagor o wybodaeth am y Llinell Gofal, ffoniwch 01558 824283, neu anfonwch e-bost i llinellgofal@sirgar.gov.uk

Cadwch y tacle allan o'ch cartref



RHYBUDDIR trigolion Sir Gaerfyrddin i fod ar eu gwyladwriaeth rhag galwyr ffug. CADWCH Y TACLE ALLAN O'CH CARTRE yw'r neges.

Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n galw yn eich cartref yn alwyr dilys. Ond weithiau, mae pobl yn galw'n ddirybudd gyda'r bwriad o gael mynediad i'ch cartref trwy dwyll.

'Twyll ar y trothwy' neu 'alwyr ffug' yw'r enw ar y troseddau hyn. Yn aml

iawn maent yn targedu'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned, fel pobl oedrannus, sy'n cael eu hystyried yn dargedau hawdd.

Galwant yn ddirybudd a'u bwriad yw tynnu eich sylw ac yna dwyn eich arian neu eitemau gwerthfawr eraill. Mae'n bosibl y byddant yn gwisgo dillad smart ac yn honni eu bod yn gweithio i'r heddlu neu i'r cyngor, i gwmni nwy, dŵr neu drydan. Mae'n bosibl y byddant yn gofyn am wydraid o ddŵr neu am gael golchi eu dwylo. Bydd rhai yn honni eu bod yn chwilio am anifail anwes sydd ar goll. Mae'n bosibl y byddant yn defnyddio pob math o storïau ac yn aml, bydd ganddynt eitemau fel carden adnabod neu oferôls â logo cwmni arnynt.

Hefyd gall galwyr ffug gymryd arnynt fod yn adeiladwyr neu'n arddwyr a cheisio eich twyllo i dalu am waith diangen.

Atgoffir preswylwyr i beidio byth â gwahodd dieithriaid i'w cartref na chytuno i adael i ddieithriaid wneud gwaith ar eu rhan.

Dywedodd Tony Ward, yr Arolygydd Diogelwch Cymunedol: "Dylai preswylwyr gofio mai ychydig iawn o droseddau a gyflawnir yn Sir Gaerfyrddin a rhan fechan yn unig o'r byrgleriaethau yn y sir sy'n droseddau twyll ar y trothwy. Fodd bynnag, cyn agor y drws, defnyddiwch dwll ysbïo neu edrychwch drwy'r ffenestr yn gyntaf, rhowch y gadwyn ar y drws a gofynnwch am garden adnabod. Os oes ydych yn dal i amau a yw'r ymwelydd yn alwr dilys, peidiwch â'i wahodd i mewn. Dywedwch wrtho am ddod yn ôl



ar ôl trefnu apwyntiad - bydd galwyr dilys yn deall. Os yw'r galwr yn dyfalbarhau, caewch y drws a ffoniwch yr heddlu.

"Hefyd, peidiwch byth â chytuno i gael gwaith wedi'i wneud gan bobl sy'n digwydd galw gyda chi, na derbyn eu gair bod angen gwneud unrhyw waith."

Os ydych yn amau bod unigolyn yn ceisio cael mynediad i'ch cartref trwy dwyll, neu'n ceisio cael arian gennych galwch Heddlu Dyfed-Powys drwy ffonio 101 neu Tacle'r Tacle drwy ffonio 0800 555 111.

Masnachwyr o safon

MAE trigolion Sir Gaerfyrddin yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Cynllun Masnachwyr Cofrestredig pan maent angen rhywun i wneud gwaith yn eu cartrefi neu eu gerddi.



Cefnogir y cynllun, a'r cynllun cysylltiedig ar gyfer Tasgmyn a Garddwyr, gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Sir, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac asiantau eraill.

Sefydlwyd y cynllun gan y Cyngor yn ymateb i'r nifer gynyddol o gwynion a dderbyniwyd gan Safonau Masnach ynghylch adeiladwyr twyllodrus a gwaith o ansawdd gael.

Mae'r Cynllun Tasgmyn a Garddwyr yn rhan o fenter sy'n anelu at gosbi masnachwyr twyllodrus a galwyr diwahoddiad.

Gall preswylwyr fod yn dawe eu meddwl y cyflawnir gwaith o safon uchel, am bris cystadleuol a chan gwmnioedd cymeradwy.

Gallwch gael rhestr o'r aelodau cyfredol drwy gyrchu www.carmarthenshire.gov.uk neu drwy ffonio 01267 234567.

Peidiwch â'i oddef, rhowch wybod amdano

PEIDIWCH â'i oddef, rhowch wybod amdano yw'r neges i drigolion Sir Gaerfyrddin, p'un ai cymdogion swnllyd neu dipio anghyfreithlon ar garreg y drws sy'n eich poeni.

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gofyn i'r cyhoedd ei helpu i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gallu cael effaith negyddol ar gymunedau. Gallai hyn gynnwys ymddygiad meddw neu afreolus, defnyddio iaith fygythiol a sarhaus mewn mannau cyhoeddus, sbwriela, graffiti neu ddifrod troseddol.

Anogir aelodau o'r cyhoedd i roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn helpu'r bartneriaeth i glustnodi ardaloedd trafferthus. Mae rhoi gwybod yn ddi-oed am broblemau yn rhoi cyfle i swyddogion weithio gyda'r troseddwy'r o'r dechrau'n deg er mwyn atal dirywiad pellach a darparu atebion tymor hir ar gyfer y gymuned.

Un o'r arfau a ddefnyddir gan y bartneriaeth yw'r broses ymyrryd a gorfodi pedwar cam sy'n cynnwys llythyrau rhybuddio yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol ag unigolion. Y llynedd anfonwyd 496 o lythyrau a 49 yn unig o'r rhain oedd yn llythyrau dilynol sy'n gyfystyr â chyfradd lwyddiant o 90%.

Dywedodd Mark James, Cadeirydd y Bartneriaeth: "Os yw preswylwyr yn cael unrhyw broblemau yn eu hardal, mae angen i ni wybod amdanynt er mwyn cymryd camau. Mae'r bartneriaeth yn ymdrin yn ddifrifol iawn â phob math o ymddygiad



gwrthgymdeithasol; mae'n bryder mawr i gymunedau lleol ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer y cyngor a'r heddlu yn ogystal â'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt."

Cofiwch 'Peidiwch â'i oddef, rhowch wybod amdano'- cysylltwch â Galw Sir Gâr drwy ffonio 01267 234567 neu cysylltwch â'ch Tîm Plismona Bro lleol drwy ffonio 101.

Ymladd trosedd

MAE Crimestoppers Cymru, sy'n gangen o elusen Brydeinig, wedi ymrwymo i fynd i'r afael â throsedd ledled Cymru. Fel nifer o elusennau eraill tîm penodol o wirfoddolwyr sy'n rhedeg Crimestoppers Cymru ac er nad yw'r elusen yn rhan o'r heddlu caiff ei chefnogi gan y pedwar llu yng Nghymru.

Mae Crimestoppers yn ffordd anhysbys o roi gwybodaeth am droseddau, ac mae Crimestoppers yn gwarantu'r anhysbysrwydd hwnnw. Ni ofynnir i alwyr roi eu henwau nag unrhyw wybodaeth bersonol arall ac ni ellir olrhain tarddiad y galwadau. Golyga hyn y gall pobl deimlo'n ddiogel wrth roi cymorth i fynd i'r afael â throseddau yn y gymuned. Y neges allweddol yw:

"dwedwch wrthym beth a wyddoch nid pwy ydych."



Peidiwch cael eich twyllo

MAE'R heddlu yn Sir Gaerfyrddin yn cynghori pobl i ddilyn y canllawiau syml canlynol rhag iddynt gael eu twyllo gan sgamiau:

- Os ydych yn derbyn llythyr, rhowch e yn y bin sbwriel fel pob math arall o lythyr sothach.
- Os ydych yn derbyn e-bost, peidiwch â'i ateb a hysbyswch uned camddefnydd darparwr eich gwasanaeth rhyngwyd.
- Os ydych yn derbyn galwad ffôn peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth a rhowch y ffôn i lawr.

Gallai'r canlynol fod yn rhybudd bod rhywun yn ceisio eich twyllo:

- Os yw cynnig yn swnio'n rhy dda i fod yn wir.
- Os gofynnir i chi am arian.
- Os gofynnir i chi roi manylion cyfrif banc, ac ati.
- Os rhoddir pwysau arnoch i ateb yn syth.

Os ydych wedi cael eich twyllo cysylltwch â'r heddlu drwy ffonio 101.

Peidiwch a'i cholli, cofiwch ei gloi

Gall siediau gardd a garejis fod yn drysorfa gudd i ladron gyda beiciau, peiriannau torri porfa, offer a chyfarpar gardd gwerth miloedd o bunnau.

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn annog trigolion i sicrhau fod unrhyw dai mas yn ddiogel, yn enwedig yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn gyda'r gwanwyn a'r haf yn agosáu. Mae'r ffigurau'n dangos bod tua chwarter yr achosion o fwrqlera mewn adeiladau allanol yn Sir Gaerfyrddin yn ymwneud ag adeiladau sydd heb eu cloi'n ddiogel.

Dyweddodd Tony Ward, yr Arolygydd Diogelwch



Cymunedol: "Yn fwy aml na pheidio, mae siediau gardd a garejis yn dargedau rhwydd i droseddwyd. Serch hynny, gall preswylwyr gymryd camau syml er mwyn lleihau'r risg o ddiodef y math hwn o drosedd."

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor di-dâl ynghylch diogelwch eiddo, cysylltwch â'ch swyddog atal troseddau lleol drwy ffonio 101.

Cynnydd mewn achosion o ddwyn olew

MAE codiad ym mhrisiau olew gwresogi wedi arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o ddwyn olew o danciau. Gall y pwyntiau canlynol eich cynorthwyo i atal lladrad o'r fath.

Cadwch olwg rheolaidd ar lefel yr olew yn y tanc.

- Os mai tanc plastig sydd gennych ystyriwch godi ffens o'i amgylch.
- Os mai tanc dur sydd gennych gosodwch glo clap gefyn caeedig sy'n anodd ei dorri.
- Ystyriwch osod goleuadau diogelwch.

UN o brif nodau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yw cynyddu hyder y cyhoedd ein bod yn gwneud popeth a allwn i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd. Er gallu gwneud hynny anelwn at roi cymaint â phosib o'r wybodaeth ddiweddaraf i chi. A gwranddo ar beth ddwedwch wrthym sydd angen ei wneud. Mae'n bosib y gofynnir i chi gan yr heddlu i gymryd gymryd rhan mewn arolwg. Dyma un ffordd y gallwn ddod i wybod a ydym yn ymdrin â'ch anghenion a'ch pryderon. Felly os gofynnir i chi gymryd rhan, rhowch eich barn i ni a helpwch ni i wneud eich cymuned yn lle gwell i fyw ynddo.

101 - pan fydd yn llai pwysig na 999



OS byddwch angen cysylltu â'r heddlu ynghylch mater nad yw'n fater brys gallwch bellach ffonio'r rhif 101.

Atebir y galwadau hyn gan gysylltwyr ffôn penodol yn gweithio yn yr un ardal o Heddlu Dyfed Powys ag y gwneir y galwadau.

Dyma'r rhif i'w ffonio os byddwch yn dymuno:

- siarad gyda'ch Tîm Plismona Bro
- adrodd am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol neu aflonyddu
- rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau o yrru peryglus

Nid yw 101 yn disodli 999 ond gallwch ei ddefnyddio i hysbysu'r heddlu am rywbeth nad os angen ymateb brys iddo.

Dyweddodd Andy Edwards, Dirprwy Brif Gwnstabl Prosiect Cydweithredu Cymru Gyfan, "Nod 101 yw cael un rhif y gall pobl ledled Cymru ei ddefnyddio ar gyfer rhoi gwybod am fân drafferthion ac ymddygiad gwrthgymdeithasol."

"Cymru yw'r wlad gyntaf i gael dim ond dau rif ar gyfer yr Heddlu. Gall trigolion lleol ac ymwelwyr ffonio 999 mewn argyfwng ac 101 pan mae llai o frys.

Pontio rhwng yr hen a'r ifanc

MAE gwaith ar y gweill i bontio'r bwllch rhwng pobl ifanc a phobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin.

Trefnodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol nifer o ddigwyddiadau ar y cyd â'r Fforwm 50+ a Chyngor Ieuentid Sir Gaerfyrddin i geisio lleihau'r bwllch rhwng y ddwy genhedlaeth.

Cynhaliwyd y digwyddiadau 'Rydym i gyd yn ifanc unwaith' mewn lleoliadau yn Llanelli, Caerfyrddin, Rhydaman a Chydweli. Y nod oedd gwella'r berthynas rhwng y ddwy garfan yn ogystal â lliniaru'r ofn sydd gan bobl hŷn o ieuentid a throseddau'n gyffredinol a rhoi golwg gadarnhaol ar yr henoed i bobl ifanc.

Mynychwyd y digwyddiadau gan Swyddogion Plismona Bro yn ogystal â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cymorth i Ferched, Cymorth i Ddiodefwyr, Age Concern, SUDDS (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i'r rheiny dan 18 oed), PRISM (gwasanaeth cynghori ar alcohol a chyffuriau) a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Roedd yno stondinau yn darparu gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn a phobl ifanc yn ogystal â sesiynau gweithdy yn delio â materion sy'n bwysig iddynt.



Dywedodd Kate Thomas, Rheolwr Diogelwch Cymunedol: "Mae pobl hŷn a phobl ifanc yn byw, gweithio, dysgu a chwarae ochr yn ochr. Fe allent rannu'r un diddordebau a phryderon, byw yn yr un ardal, pasio ei gilydd ar y stryd, siopa yn yr un siopau ond byth ddod i adnabod ei gilydd yn iawn. Mae mentrau fel hyn yn helpu i ddod â'r cenedlaethau at ei gilydd i rannu profiadau, trafod materion a phontio bylchau yn gyffredinol a hynny mewn amgylchedd diogel a chyfforddus."

Ein Haddewid Plismona i'n cymunedau

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi disnasyddion sy'n parchu'r gyfraith, ac yn erlid troseddwr yn ddiplino er mwyn eich diogelu chi a'ch cymdogaeth niwed.

Byddwyn yn:

1. Eich trin yn deg, a gydag urddas a pharch.
2. Rhoi gwybodaeth I chi am eich Tim Plismona Bro a sut I gysylltu a nhw.
3. Sicrhau bod eich Timau Plismona Bro'n treulio cymaint o amser a phosib yn eich dalgylch.
4. Ymateb I bob neges a gyfeirir at Dimau Plismona Bro o fewn 24 awr.
5. Anelu at ateb galwadau 999 o fewn 10 eiliad, a chyrraedd o fewn 20 munud I dderbyn yr alwad.
6. Ymateb yn ddiymdroi I alwadau di-frys, yn enwedig os yw'r galwr yn fregus neu'n ofidus neu'n galw ynghylch blaenoriaeth bro.
7. Trefnu cyfarfodydd cyhoeddus cyson er mwyn gosod blaenoriaethau plismona bro.
8. Rhoi diweddariad cyson ynghylch datblygiadau o ran materion plismona bro.
9. Rhoi gwybod I'r rheiny ohonoch sy'n dioddef trosedd am y datblygiadau yn eich achos.
10. Cydbabod unrhyw gwynion ynghylch ein gwasanaeth o fewn 24 awr.



Gwiriad diogelwch

A WYDDECH chi fod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymweld â chartrefi i roi cyngor ynghylch diogelwch rhag tân a'u bod yn rhoi a gosod larymau mwg am ddim? Rhyw hanner awr a gymerir i gynnal Gwiriad Diogelwch Rhag Tân ac fe allai arbed eich bywyd.

Mae'n cynnwys:

- Gosod larymau mwg 10 mlynedd AM DDIM lle bynnag mae eu hangen.
- Rhoi cyngor a allai arbed eich bywyd pe digwyddai tân yn eich cartref.
- Dangos sut i wneud cynllun dianc rhag tân i chi a'ch teulu.
- Rhoi cyngor ymarferol ynghylch clustnodi peryglon tân yn y cartref.
- Dosbarthu offer am ddim i leihau risg tân.

Staff y Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n cynnal y Gwiriadau Diogelwch Rhag Tân ac maent ar gael am ddim i unrhyw un sy'n byw yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

I drefnu Gwiriad Diogelwch Rhag Tân ffoniwch 08001691234 neu anfonwch destun SMS 'HFSC' a'ch enw i 88365; neu cysylltwch â hwy ar-lein drwy gyrchu www.mawwfire.gov.uk